


Diwrnod allan gyda'r teulu Diofal

stori



Mae Mari a Rhys Diofal yn chwarae yng ngardd eu tŷ newydd ar gyrion y dref. Codwyd eu stad o dai ar gaeau ychydig y tu allan i'r dref.


Mae Mam yn galw arnynt, 'Ydych chi eisiau mynd allan am bicnic heddiw?'

'O, plŷs!' gwaedda Mari.

'Gawn ni fynd at y pwll yn y wlad?' mae Rhys yn gofyn. 'Baswn i'n hoffi defnyddio fy ngwialen bysgota newydd.'

'A baswn i'n hoffi casglu ychydig o anifeiliaid achos ry'n ni'n gwneud anifeiliaid yn yr ysgol,' meddai Mari.

Felly mae Dad yn pacio'r picnic a Mam yn rhoi popeth yng nghefn y car. Dim ond taith gerdded fer sydd at y pwll ond mae llawer i'w gario felly maen nhw'n mynd â'r car i wneud bywyd yn haws.




LLUNIAU: STUART TROTTER



addysg
partneriaid mewn dysg

Gellir llungopio


Diwrnod allan gyda'r teulu Diofal (parhad)



Ar ôl cyrraedd y pwll mae Rhys yn gafael yn ei wialen bysgota. Mae'n ceisio dal pysgod ond y cyfan mae'n ei gael yw hen dun a thalp o chwyn. Mae'r lein yn mynd yn sownd ac ar ôl ceisio ei gael yn rhydd am funud neu ddau mae'n rhoi'r gorau iddi ac yn torri'r bachyn i ffwrdd.

Roedd Mari wedi bod yn chwilio am nyth mewn coeden lle roedd ychydig o wyau. Roedd y nyth fymryn yn rhy bell iddi ei gyrraedd ac felly aeth i gael golwg ar y pwll.

'Rhys,' gwaedda Mari. 'Edrych, rydw i wedi cael hyd i benbyliaid a grifft llyffant.' Mae'n codi rhai o'r anifeiliaid ac yn eu rhoi mewn jar wrth ochr y pwll.



'Cinio'n barod,' meddai Mam.

'Rydych chi'n cael creision, iogwrt a chaniau côc gyda'ch brechdanau,' meddai Dad. 'Yn anffodus, rydw i ar ddeiet a dim ond tun o ffrwythau rydw i'n ei gael.'

Ar ôl cinio, mae Rhys yn casglu'r sbwriel i gyd ac yn mynd ag ef at y bun sbwriel wrth ochr y ffordd. Mae'r bun yn llawn, felly mae'n gadael y sbwriel wrth ochr y bun.

Ar ôl gorffen eu picnic yn yr haul, mae'r teulu'n gyrru adref.

